

## Nodyn Cyfarfod: Swyddogion Cymraeg 2050 ac [hepgorwyd yr wybodaeth], Duolingo 13 Tachwedd 2023

### Y cyfarfod

1. Cynhaliwyd y cyfarfod dros Teams ar 13 Tachwedd gyda [hepgorwyd yr wybodaeth], [hepgorwyd yr wybodaeth] a [hepgorwyd yr wybodaeth] yn bresennol o Isadran Cymraeg 2050, ac [hepgorwyd yr wybodaeth] o Duolingo ([hepgorwyd yr wybodaeth]).

### Crynodeb

2. Nodwyd bod y penderfyniad i atal gwaith ar gwrs Cymraeg Duolingo wedi creu sylw yn y wasg ac ymhlith gwleidyddion a'r cyhoedd. Cytunodd swyddogion a Duolingo bod tipyn o hynny oherwydd canfyddiad anghywir bod y cwrs Cymraeg yn mynd i ddiffannu o blatfform Duolingo. Cadarnhaodd Duolingo nad oedd yn fwriad ganddo dynnu'r cwrs Cymraeg o'r system a bydd y cwrs dal ar gael yn y dyfodol ac yn dal i fod am ddim i bawb.
3. Esboniodd Duolingo y cefndir i'w benderfyniad: [hepgorwyd yr wybodaeth]
  - [hepgorwyd yr wybodaeth]
  - [hepgorwyd yr wybodaeth]
  - [hepgorwyd yr wybodaeth]
4. Ar ôl adolygu ffyrdd o weithio, [hepgorwyd yr wybodaeth]. Gwnaed y pwyntiau canlynol am y cynnwys Cymraeg:
  - Mae'r cwrs Cymraeg ar Duolingo yn gynhwysfawr ac wedi cael ei alinio i gyrsiau'r Ganolfan ar lefelau mynediad a sylfaen (lan i A2 ar y CEFR). [hepgorwyd yr wybodaeth].
  - [hepgorwyd yr wybodaeth].
5. Nid yw'n fwriad gan Duolingo i ail ystyried eu penderfyniad [hepgorwyd yr wybodaeth]. Cytunwyd ar y pwyntiau gweithredu canlynol:
  - [hepgorwyd yr wybodaeth].
  - Duolingo i rannu arbenigedd gyda'r Llywodraeth a'r Ganolfan ynglŷn â sut i ddenu pobl ifanc i ddysgu Cymraeg. [hepgorwyd yr wybodaeth], ac mae Duolingo yn barod i gynnig arweiniad ar sut i ddenu pobl o'r oed hynny at y cyrsiau am ddim sy'n cael eu cynnig gan y Ganolfan. Mae hynny'n cynnwys defnyddio cyfryngau cymdeithasol.
  - Yn y tymor hir, parhau i drafod wrth i'r Bil Addysg a'r continwmm newydd ddatblygu i weld a oes rôl gan adnoddau Duolingo i chwarae fel adnodd i gyfoethogi Dysgu Cymraeg i'r gweithlu addysg ac mewn ysgolion.
6. Nid yw Duolingo yn rhoi'r gorau i ddatblygu cynnwys newydd ar gyrsiau dysgu ieithoedd. Ond am y tro maent yn oedi datblygu cynnwys newydd yn y Gymraeg (ac ieithoedd eraill). Byddwn ni'n parhau i drafod gyda Duolingo er mwyn deall yn well yr heriau mae nhw'n eu hwynebu wrth ddatblygu cynnwys ac i weld a oes unrhyw gymorth ymarferol y gallwn ni ei gynnig er mwyn hwyluso'r gwaith yn y dyfodol. Mae'n bwysig nodi nad yw'r drws wedi'i gau ar y Gymraeg ac mae'n bosibl iawn y bydd y cwmni'n ailgydio yn y gwaith yn y dyfodol. Wrth i ni gael

trafodaethau rheolaidd gyda'r cwmni, bydd hynny'n creu cyfle i drafod diwygio neu ychwanegu cynnwys os fydd yr angen yn codi.

7. Byddwn yn paratoi ymateb i lythyr Pwyllgor y Senedd ac anfon hwnnw at eich sylw.